**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**2000 Rhif (Cy.)**

**ADDYSG, CYMRU**

**Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2000**

**nodyn esboniadol**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r wybodaeth am wariant yr awdurdodau addysg lleol (AALl) ar addysg y mae'n rhaid ei chynnwys mewn datganiad (y cyfeirir ato yn y rheoliadau fel "datganiad alldro") y mae'n ofynnol i bob AALl ei baratoi ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol o dan adran 52(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (rheoliad 5).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn pennu'r ffurf y mae'n rhaid i ddatganiadau alldro ei chymryd (rheoliad 4(1) a (2)) a dull ac amser cyhoeddi datganiadau o'r fath (rheoliadau 6-8)

Mae'r Rheoliadau'n disodli Rheoliadau cynharach sy'n cael eu diddymu (rheoliad 3).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2000 No. (W.)**

**EDUCATION, WALES**

**The Education (Outturn Statements) (Wales) Regulations 2000**

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations.)*

These Regulations specify the information about local education authorities' (LEAs) expenditure on education which must be contained in a statement (referred to in the regulations as an "outturn statement") which each LEA is required to prepare after the end of each financial year under section 52(2) of the School Standards and Framework Act 1998 (regulation 5).

The Regulations also specify the form which outturn statements must take (regulation 4(1) and (2)) and the manner of, and time for, publication of such statements (regulations 6-8).

The Regulations replace earlier Regulations which are revoked (regulation 3).

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 Rhif (Cy.)**

**ADDYSG, CYMRU**

**Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2000**

Wedi'u gwneud . . . 2000

Yn dod i rym 31 Gorffennaf 2000

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 52(2) a (3), 138(8) a 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998**(a)** ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru **(b)**, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar

31 Gorffennaf 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2000 No. (W. )**

**EDUCATION, WALES**

**The Education (Outturn Statements) (Wales) Regulations 2000**

Made . . . 2000

Coming into force 31st July. 2000

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 52(2) and (3), 138 (8) and 142(1) of the School Standards and Framework Act 1998**(a)** and now vested in the National Assembly for Wales**(b)** the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1.**-(1) These Regulations may be cited as The Education (Outturn Statements) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 31st July 2000.

(2) These Regulations apply to Wales only.

**Interpretation**

**2.-**(1) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "awdurdod" *("authority")* yw awdurdod addysg lleol;

ystyr "blwyddyn ariannol" *("financial year")* yw cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "cyfran ysgol o'r gyllideb" *("school's budget share")* yw cyfran ysgol o'r gyllideb o fewn ystyr adran 47(1) o Ddeddf 1998;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" *("the National Assembly")* yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "datganiad alldro" *("outturn statement")* yw'r datganiad y cyfeirir ato yn adran 52(2) o Ddeddf 1998;

ystyr "datganiad cyllideb" *(budget statement")* yw'r datganiad y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei gyhoeddi yn unol ag adran 52(1) o Ddeddf 1998 a Rheoliadau 1999;

ystyr "Deddf 1998" *("the 1998 Act")* yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "Rheoliadau 1999" *("the 1999 Regulations")* yw Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 1999**(c)**;

**2.-**(1) In these Regulations –

"the 1998 Act" *("Deddf 1998")* means the School Standards and Framework Act 1998;

"the 1999 Regulations" *("Rheoliadau 1999")* means the Education (Budget Statements) (Wales) Regulations 1999**(c)**;

"authority" *("awdurdod")* means a local education authority;

"budget statement" *("datganiad cyllideb")* means the statement which the authority are required to publish in accordance with section 52(1) of the 1998 Act and the 1999 Regulations;

"financial year" *("blwyddyn ariannol")* means a period of twelve months ending on 31st March;

"outturn statement" *("datganiad alldro")* means the statement referred to in section 52(2) of the 1998 Act;

"the National Assembly" *("y Cynulliad Cenedlaethol")* means the National Assembly for Wales;

"school" *("ysgol")* means a community, foundation or voluntary school or a community or foundation special school;

ystyr "ysgol" *("school")* yw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn sydd â'r rhif hwnnw ac mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad sydd â'r rhif hwnnw.

**Diddymu a darpariaethau trosiannol**

**3.**-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae Rheoliadau Addysg (Datganiadau Ariannol Ysgolion) (Manylion Penodedig etc.) 1995**(ch)** a Rheoliadau Addysg (Datganiadau Ariannol Ysgolion) (Manylion Penodedig etc.) (Diwygio a Diddymu)1996**(d)** wedi'u diddymu yn gymaint â'u bod yn gymwys i ddatganiadau alldro (fel y'u diffiniwyd ynddynt) awdurdodau addysg lleol yng Nghymru.

(2) Er hynny, fe fydd y Rheoliadau hynny yn dal yn gymwys i awdurdodau addysg lleol yng Nghymru mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol sy’n dechrau ar 1 Ebrill 1996 neu wedyn a chyn 1 Ebrill 2000.

**Ffurf datganiadau alldro**

**4.**-(1) Rhaid paratoi datganiad alldro mewn dwy ran.

(2) Rhaid i bob rhan gynnwys pennawd ar frig y tudalen cyntaf yn nodi mai datganiad alldro ydyw, enw'r awdurdod y paratowyd y datganiad ganddo a'r flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati.

"school’s budget share" *("cyfran ysgol o'r gyllideb")* means a school’s budget share within the meaning of section 47(1) of the 1998 Act;

(2) Any reference in these Regulations to a numbered regulation is a reference to the regulation in these Regulations so numbered and any reference in a regulation to a numbered paragraph is a reference to the paragraph in that regulation so numbered.

**Revocation and transitional provisions**

**3.**-(1) Subject to paragraph (2), the Education (School Financial Statements) (Prescribed Particulars etc.) Regulations 1995**(d)** and the Education (School Financial Statements) (Prescribed Particulars etc.) (Amendment and Revocation) Regulations 1996**(e)** are revoked insofar as they apply to outturn statements (as therein defined) of local education authorities in Wales.

(2) Those Regulations shall, however, continue to apply to local education authorities in Wales in relation to any financial year beginning on or after 1st April 1996 and before 1st April 2000.

**Form of outturn statements**

**4.**-(1) An outturn statement must be prepared in two parts.

(2) Each part must include a heading at the top of the first page indicating that it is an outturn statement, the name of the authority by whom the statement was prepared and the financial year to which it relates.

**Gwybodaeth ar gyfer datganiadau alldro**

**5.-** (1) Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn Rhan I o unrhyw ddatganiad alldro yw-

a. (i) swm y gwariant (net a gros) a dynnwyd mewn gwirionedd gan yr awdurdod (neu a driniwyd gan yr awdurdod fel pe bai wedi'i dynnu), a

(ii) swm yr incwm a ddyrannwyd gan yr awdurdod i'r ysgolion a gynhelir ganddynt,

yn y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad yn cyfeirio ati drwy gyfeirio at gategorïau sy'n cyfateb i bob un o'r materion y mae Rheoliadau 1999 yn gofyn eu bod yn cael eu cynnwys yn Rhan I o ddatganiad cyllideb yr awdurdod am y flwyddyn honno;

b. yn gyfochrog â'r datganiad o bob swm o'r fath y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) (i) a (ii), swm y ddarpariaeth ariannol gynlluniedig neu amcangyfrif o'r incwm, yn ôl fel y digwydd, a bennwyd yn natganiad cyllideb yr awdurdod ar gyfer y mater hwnnw;

(c) Y ffigur canrannol y mae'n ofynnol ei osod, yn unol â Nodyn H2 **(dd)** i Ran I o ddatganiad cyllideb, yng ngholofn (h) o'r datganiad hwnnw; ac

**Information for outturn statements**

**5.**- (1) The information to be contained in Part I of any outturn statement is –

a. (i) the amount of expenditure (net and gross) actually incurred by the authority (or treated by the authority as having been incurred), and

(ii) the amount of income allocated by the authority to schools maintained by them,

in the financial year to which the statement relates by reference to categories corresponding to each of the matters required by the 1999 Regulations to be contained in Part I of the authority's budget statement for that year;

(b) adjacent to the statement of each such amount referred to in sub-paragraph (a) (i) and (ii), the amount of planned financial provision or estimated income, as the case may be, specified in the authority's budget statement for that matter;

(c) The percentage figures which, in accordance with Note H2**(f)** to Part I of a budget statement, are required to be inserted in column (h) of that statement; and

(ch) mewn perthynas â phob un o'r categorïau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) uchod, y gwariant a dynnwyd mewn gwirionedd gan yr awdurdod mewn perthynas â phob categori, ar ôl didynnu unrhyw incwm a gafwyd gan yr awdurdod mewn perthynas â'r categori hwnnw ac a ddyrannwyd i'r ysgolion a gynhelir ganddynt (p'un a'i dirprwywyd i ysgolion unigol neu beidio), wedi'i fynegi fel canran o gyllideb ysgolion lleol yr awdurdod.

(d) in relation to each of the categories referred to in sub-paragraph (a) above, the expenditure actually incurred by the authority in respect of each category, after deducting any income received by the authority in respect of that category and allocated to schools maintained by them (whether or not delegated to individual schools), expressed as a percentage of the authority's local schools budget.

(2) Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn Rhan 2 o ddatganiad alldro, mewn perthynas â phob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod (wedi'i hadnabod yn ôl ei henw a'r rhif cyfeirio swyddogol a ddyrannwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol), yw -

(2) The information to be contained in Part 2 of an outturn statement, in relation to each school maintained by the authority (identified by its name and official reference number allocated by the National Assembly), is –

(a) swm cyfran yr ysgol o'r gyllideb am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad yn cyfeirio ati ac a gynhwyswyd yn Rhan 2 o ddatganiad cyllideb yr awdurdod;

(a) the amount of the school's budget share for the financial year to which the statement relates included in Part 2 of the authority's budget statement;

(b) manylion unrhyw godiadau neu ostyngiadau yng nghyfran yr ysgol o'r gyllideb o fewn y flwyddyn yn sgil unrhyw ailbenderfynu ar ei chyfran o'r gyllideb yn unol â rheoliad 19 o Reoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999 **(e)**;

(b) particulars of any in-year increases or decreases to the school's budget share in consequence of any redetermination of its budget share pursuant to regulation 19 of the Financing of Maintained Schools Regulations 1999**(g)**;

(c) manylion unrhyw symiau a ddyrannwyd i'r ysgol nad ydynt yn dod o fewn is-baragraff (b);

(c) particulars of any amounts allocated to the school not falling within sub-paragraph (b);

(ch) y cyfanswm a ddyrannwyd i'r ysgol gan yr awdurdod yn y flwyddyn ariannol honno;

(d) the total amount allocated to the school by the authority in that financial year;

(d) y balans a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas ag unrhyw ormodedd neu ddiffyg yng nghyfran yr ysgol o'r gyllideb mewn unrhyw flwyddyn ariannol flaenorol;

(e) the balance brought forward from the previous financial year in respect of any surplus or deficit in the school’s budget share in any previous financial year;

(dd) y swm sydd i'w gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf mewn perthynas ag unrhyw ormodedd neu ddiffyg yng nghyfran yr ysgol o'r gyllideb am y flwyddyn ariannol honno neu am unrhyw flwyddyn ariannol flaenorol;

(f) the amount to be carried forward to the following financial year in respect of any surplus or deficit in the school’s budget share for that or any previous financial year;

(e) cyfanswm y gwariant a briodolwyd i'r ysgol, a geir drwy adio'r gwahaniaeth rhwng y swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (d) a'r swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (dd) i'r cyfanswm y trefnwyd ei fod ar gael i'r ysgol gan yr awdurdod;

(g) the total amount of expenditure attributed to the school, derived by adding the difference between the amount referred to in sub-paragraph (e) and the amount referred to in sub-paragraph (f) to the total amount made available to the school by the authority;

(f) unrhyw swm a driniwyd gan yr awdurdod fe pe bai'n incwm a briodolwyd i'r ysgol (ac nad yw wedi’i adlewyrchu yn unrhyw un o’r symiau a bennwyd yn y datganiad alldro yn rhinwedd is-baragraff (a), (b), (c) neu (ch) uchod).

(h) any amount treated by the authority as income attributed to the school (and which is not reflected in any of the amounts specified in the outturn statement by virtue of sub-paragraph (a), (b), (c) or (d) above).

**Dull cyhoeddi datganiadau alldro**

**Manner of publication of outturn statements**

**6.**- Rhaid i bob datganiad alldro gael ei gyhoeddi -

**6.**- Every outturn statement shall be published by –

(a) drwy roi copi i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â rheoliad 7; a

(a) supplying a copy to the National Assembly in accordance with regulation 7; and

(b) drwy drefnu bod copi ar gael i rieni a phersonau eraill gyfeirio ato ar bob adeg resymol ac yn ddi-dâl yn holl swyddfeydd addysg yr awdurdod.

(b) making a copy available for reference by parents and other persons at all reasonable times and without charge at each education office of the authority.

**7.**-(1) Rhaid rhoi datganiad alldro i'r Cynulliad Cenedlaethol drwy bost electronig neu ar ffurf data y gall peiriant ei ddarllen ar ddisg hyblyg a ddarperir at y diben gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**7.**-(1) An outturn statement shall be supplied to the National Assembly by electronic mail or in the form of machine-readable data on a floppy disk provided for that purpose by the National Assembly.

(2) Rhaid i unrhyw iaith neu feddalwedd cyfrifiadur a ddefnyddir i ddarparu'r tablau fod yn un y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i hysbysu i'r awdurdod.

(2) Any computer language or software used to supply tables must be one which the National Assembly has notified to the authority.

**Amser cyhoeddi datganiadau alldro**

**8.** Rhaid i ddatganiad alldro gael ei gyhoeddi cyn y 1 Hydref nesaf yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati.

**Time for publication of outturn statements**

**8.** An outturn statement shall be published before 1st October next following the end of the financial year to which it relates.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad o dan adran 66 (1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(f)**.

2000

Llywydd y Cynulliad

Signed on behalf of the Assembly under section 66(1)of the Government of Wales Act 1998**(h)**.

2000

The Presiding Officer of the Assembly

**ENDNOTES**

(a) 1998 p.31. Am ystyr "prescribed" a "regulations" gweler adran 142(1).

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 52 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1999/451.

(ch) O.S. 1995/208.

(d) O.S. 1996/381.

(dd) Gweler Atodlen 1 i Reoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999 (O.S. 1999/101).

(e) O.S. 1999/101.

(f) 1998 p.38.

(a) 1998 c.31. For the meaning of "prescribed" and "regulations" see section 142(1).

(b) The functions of the Secretary of State under section 52 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1999/451.

(d) S.I. 1995/208.

(e) S.I. 1996/381.

(f) See Schedule 1 to the Financing of Maintained Schools Regulations 1999 (S.I. 1999/101.

(g) S.I. 1999/101.

(h) 1998 c.38.